LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

2024-04

**Eitem: 5**

**Teitl:** Adroddiad y Prif Weithredwr

## Rhagarweiniad

Mae'r adroddiad hwn yn nodi rhai o weithgareddau'r Prif Weithredwr ers cyfarfod cyhoeddus llawn ddiwethaf y Bwrdd ar 24 Ionawr 2024. Mae gwybodaeth fanylach am ein gweithgareddau a'n datblygiadau allweddol ers cyfarfod diwethaf y bwrdd wedi'i chynnwys ym mhapurau eraill y Bwrdd.

### Datblygu perthnasoedd a gweithio gyda phartneriaid

Rwyf wedi cyfarfod â llawer o bartneriaid allweddol i siarad am ein rôl, datblygu ein cynlluniau a'n gweithgareddau, ein ffyrdd o weithio, materion allweddol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a sut y gallwn gydweithio i gryfhau llais pobl mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cyfarfodydd gyda thîm partneriaeth Llais i siarad am weithgareddau a pherfformiad Llais, gweithgareddau datblygu, sefyllfa cyllideb 2023-2024 a dyraniad ar gyfer 2024-2025.

- Cyfarfodydd chwarterol ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

  Buom yn siarad am ddatblygiad ein strategaeth, ein blaenoriaethau, a'n ffyrdd o weithio yn yr hinsawdd ariannol anodd sy'n effeithio ar holl gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru a chytunwyd ar ein dull o rannu gwybodaeth yng nghyd-destun yr heriau sy'n wynebu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

- Cyfarfod â Chomisiwn Bevan i gytuno ar gynnwys cytundeb newydd. Mae hwn yn gosod y fframwaith ar gyfer partneriaeth 3 blynedd newydd rhwng y Comisiwn a Llais. Nod y fframwaith yw gwneud y defnydd gorau o'n rolau unigryw drwy gydweithio i helpu i lywio a llunio atebion sy'n canolbwyntio ar bobl ar gyfer dyfodol iechyd a gofal cymdeithasol.

- Cyfarfod â thîm ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol y Senedd. Cytunwyd ar drefniadau i rannu gwybodaeth, gan gynnwys gweithgareddau a gynlluniwyd i lywio ein rhaglenni gwaith priodol – gan ganolbwyntio'n benodol ar wasanaethau gofal cymdeithasol.

- Cyfarfod ag Archwilio Cymru i siarad am ei adolygiad cenedlaethol o Ofal Wedi'i Gynllunio'r GIG yng Nghymru, a threfniadau i rannu'r wybodaeth sydd gan bobl am brofiad pobl o ofal wedi'i gynllunio yng Nghymru.

- Cyfarfodydd ag amrywiaeth o lunwyr polisi iechyd a gofal cymdeithasol. Nod y sgyrsiau hyn oedd nodi a chysylltu â rhaglenni gweithgaredd allweddol yn ymwneud â chynllunio a pherfformiad iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys siarad â Taryn Stephens, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwella, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Nick Wood, Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru, ac amrywiaeth o staff Gweithredol y GIG, gan gynnwys arweinwyr y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio.

## Datblygu ein hunain i gyflawni

Rwyf wedi treulio llawer o amser yn gweithio gydag arweinwyr a staff ein sefydliad i barhau i feithrin ein capasiti, ein gallu a'n ffyrdd o weithio fel sefydliad newydd. Roedd hyn yn cynnwys:

- Penodi i rolau arwain allweddol gan gynnwys:

  - Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol. Disgwyliwn i'r penodai i ddechrau gyda ni ym mis Gorffennaf 2024. Yn y cyfamser, bydd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau yn parhau i gyflawni'r rôl dros dro.
  - Cyfarwyddwr Gweithrediadau. Bydd y penodai yn dechrau yn ei rôl pan fydd y Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol newydd yn ymuno â ni.
  - Cyfarwyddwr Llywodraethu Dros Dro ac Ysgrifennydd y Bwrdd. Rydym wedi penodi Cyfarwyddwr Llywodraethu ac Ysgrifennydd Bwrdd profiadol dros dro, gan adrodd yn uniongyrchol i mi ac i'r Cadeirydd.
    Bydd y penodiad hwn yn llywio datblygiad parhaus ein fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd, yn ogystal â goruchwylio rhediad esmwyth ein bwrdd a phwyllgorau a chynghori ar ddatblygu rôl barhaol ymhellach.

- Cytuno ar drefniadau, gan gynnwys mwy o gapasiti arbenigol i gefnogi ein tîm corfforaethol i fwrw ymlaen â phrosiect 'gorchwyl a gorffen' newydd sy'n canolbwyntio ar ddatblygu ein trefniadau cynllunio parhad busnes.

  Rwyf hefyd wedi cytuno i barhau i gefnogi prosiectau penodol lle mae bylchau yn ein staffio presennol, wrth inni barhau â'n rhaglen recriwtio a chwblhau ein strwythur sefydliadol.

  Mae hyn yn cynnwys staff arbenigol i gefnogi cyflwyniad ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, datblygu ein fframwaith sgiliau, a dylunio a datblygu ymhellach ein trefniadau mewnrwyd a rheoli cofnodion.

- Siarad â'n Harchwilwyr Mewnol a'n Harchwilwyr Allanol am weithgarwch archwilio yn ymwneud â 2023-2024, a threfniadau cynllunio archwilio mewnol ar gyfer 2024-2025.

- Mynychu ein digwyddiad staff Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion Cymru gyfan cyntaf.  Daeth y digwyddiad hwn, a arweiniwyd gan ein Pennaeth Proffesiwn dros Eiriolaeth Cwynion, ag eiriolwyr cwynion a staff cymorth eiriolaeth o bob un o'r 7 rhanbarth ynghyd.  Buom yn siarad â'n gilydd am ddatblygu'r gwasanaeth a ffyrdd o weithio mewn ystod o feysydd allweddol gan gynnwys:

  - goruchwyliaeth a chefnogaeth broffesiynol
  - adborth a gwerthusiad cleientiaid
  - dyrannu achosion, gan gynnwys deall cymhlethdod
  - arfer gweithio cyson.

  Bydd Tîm Arwain yn adolygu'r cynigion canlyniadol yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2024.

- Mynychu digwyddiad dangos a dweud 'Dylunio Gwasanaeth ar Waith'.  Roedd y digwyddiad hwn yn dathlu llwyddiannau amrywiaeth o bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi cymryd rhan mewn cwrs dylunio gwasanaethau achrededig 6 mis.  Roedd hyn yn cynnwys 3 o'n haelodau staff Leanda Wynn, Donna Coleman, a Ben Eaton.

  Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar ddylunio gwasanaethau sy'n gweithio ac yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau a'r sefydliadau sy'n eu darparu.  Bydd y dysgu yn helpu ein staff i ddylunio ein ffyrdd ein hunain o weithio yn ogystal â hysbysu a dylanwadu ar y ffordd y mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu cynllunio.

- Mynychu digwyddiad staff Cymru gyfan.  Roedd y digwyddiad hwn yn canolbwyntio ar ddeall a chyflawni ein strategaeth sefydliadol 3 blynedd arfaethedig a'n safonau ymddygiad drafft sydd newydd eu datblygu.

  Unwaith y cytunir arnynt, bydd y safonau ymddygiad hyn yn cael eu hadlewyrchu ym mhob agwedd o'n gwaith.  Bydd ein hymagwedd recriwtio, gweithgareddau dysgu a datblygu a threfniadau gwerthuso perfformiad yn sail iddynt.

- Ymweld â gofod swyddfa newydd posibl ar gyfer tîm cenedlaethol Llais a rhanbarth Caerdydd a Bro Morgannwg. Gallai symudiad posibl darparu gwell gwerth am arian ac amgylchedd gwell a mwy hygyrch i'n staff ac ymwelwyr.

  Yn unol â'n trefniadau partneriaeth ag undebau llafur cydnabyddedig, bydd camau'n cael eu cymryd nawr i ymgynghori'n ffurfiol â staff ar unrhyw gamau posibl cyn gwneud unrhyw gynigion i'r Bwrdd.

## Cymryd rhan mewn datblygiadau cenedlaethol yn y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol

Rwyf wedi cyfarfod ag amrywiaeth o gyrff iechyd a gofal cymdeithasol i rannu'r hyn yr ydym yn ei glywed am brofiadau pobl o wasanaethau iechyd a gofal, i siarad am yr hyn sydd angen digwydd i wneud pethau'n well ac i siarad am gynlluniau a chynigion i newid y ffordd y mae gwasanaethau yn cael eu darparu yn genedlaethol.

Rwyf wedi cyfarfod a siarad â:

- Swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch cyflwyno Rheoliadau Diwygio Caffael y Gwasanaeth Iechyd a chanllawiau statudol, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Byddai'r rheoliadau a'r canllawiau statudol yn cael eu cyflwyno o dan ddarpariaethau Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru).

  Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 23 Chwefror 2024, a disgwylir i reoliadau a chanllawiau gael eu cyhoeddi yn Haf 2024. Byddai'r trefniadau diwygiedig yn newid y ffordd y mae gwasanaethau iechyd a ddarperir fel rhan o'r GIG yn cael eu caffael yng Nghymru. Roedd ein cyfarfod yn sôn am rôl a rhan Llais mewn materion yn ymwneud ag ansawdd gwasanaethau a brynir.

- Trigolion Powys yr effeithir arnynt gan gynigion Prif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans Brys a'i dîm yn ymwneud â datblygu'r Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys yng Nghymru ymhellach.

  O 1 Ebrill, 2024, datblygodd y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys yn Gydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru. Yn fwyaf diweddar, rwyf wedi ysgrifennu at Brif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans Brys i nodi pryderon parhaus ynghylch amseriad penderfyniad ar y cynnig i gau canolfannau ym Mhowys a Gogledd Orllewin Cymru a symud i ganolfan newydd yng Ngogledd Cymru.

  Rydym yn pryderu y byddai penderfyniad yn awr yn gynamserol heb yn gyntaf helpu pobl i ddeall mwy am gynigion cysylltiedig i ddatblygu gwasanaethau ymhellach i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell yng Nghymru. Rydym yn aros am ymateb i'r materion a godwyd gennym.

- Amrywiaeth o staff iechyd a gofal cymdeithasol a swyddogion Llywodraeth Cymru fel rhan o 'grŵp gorchwyl Adolygu Mesur yr Adran Achosion Brys Cenedlaethol'.

  Ochr yn ochr â chyhoeddi Datganiad Ansawdd ar gyfer Gofal mewn Adrannau Achosion Brys[1] cyhoeddodd y Gweinidog dros

[1] Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y Datganiad Ansawdd ar gyfer Gofal mewn Adrannau Brys drwy ddilyn y ddolen ganlynol: [Datganiad Ysgrifenedig: Datganiad Ansawdd ar gyfer Gofal mewn Adrannau Brys (15 Mawrth 2024) | LLYW.CYMRU]

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn sefydlu grŵp gorchwyl cenedlaethol i adolygu mesurau adrannau achosion brys.

Bydd yn ystyried a oes gwell mesurau ansawdd, gwerth, profiad, a chanlyniadau ar gyfer gofal a ddarperir mewn adrannau achosion brys i helpu i hysbysu'r cyhoedd yng Nghymru am yr hyn i'w ddisgwyl wrth gael mynediad at y gwasanaethau hyn ac i helpu i ysgogi gwelliannau.

- Swyddogion Llywodraeth Cymru am ei hadolygiad o newidiadau arfaethedig i system gwynion y GIG o'r enw 'Gweithio i Wella'. Mae ymgynghoriad cyhoeddus[2] i gasglu barn ar y ffordd y mae pryderon a chwynion am ofal y GIG yn cael eu codi, eu hymchwilio ac yn derbyn ymateb.

  Bydd y newidiadau arfaethedig hefyd yn effeithio ar ddarpariaeth ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion. Rydym yn paratoi ein hymateb i'r ymgynghoriad.

## Trefniadau cynllunio ac adrodd

Cyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028[3] ddechrau mis Ebrill 2024.

## Digwyddiadau a gweithgareddau i ddod

Mae rhai o'r gweithgareddau a'r digwyddiadau sydd i ddod y byddaf yn ymwneud â nhw yn ystod yr wythnosau nesaf yn cynnwys:

- Ymweliad â rhanbarth Gogledd Cymru Llais
- Uwchgynadleddau Gofal Iechyd
- Cyflwyniad i Fwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru

[2] Gallwch ddarganfod mwy am yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Weithio i Wella trwy ddilyn y ddolen ganlynol: Ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i'r broses Gweithio i Wella [HTML] | LLYW.CYMRU
[3] Gallwch weld ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn y ddolen ganlynol: Ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 | Llais (llaiscymru.org)